
**ADRAN A**

1 Faint yw $6.5 \times 3.5 + 6.5 \times 6.5$ ?

a) 45 b) 50 c) 55 ch) 60 d) 65

2 Y rhif ym mhob bloc yw lluoswm y ddau rif oddi tano.




Faint yw'r rhif A?

a) 1 b) 2 c) 3 ch) 4 d) 5

3 Faint yw cymedr $^{2}/_{3}$ a $^{4}/_{9}$ ?

a) $^{1}/_{2}$ b) $^{2}/_{9}$ c) $^{7}/_{9}$ ch) $^{3}/_{4}$ d) $^{5}/_{9}$


4 Ar gyfartaledd, mae modurdy Ford yn gwerthu 7 car Fiesta am bob 4 car Focus. Mae'r modurdy yn disgwyl gwerthu 28 car Focus yn ystod y mis nesaf. Sawl car Fiesta y mae'r modurdy yn disgwyl ei werthu yn ystod y mis?

a) 16 b) 32 c) 35 ch) 49 d) 112

5 Cafodd Elen 90% ar brawf 40-problem a 70% ar brawf 10-problem. Pa ganran o'r holl broblemau yr oedd Elen wedi ei ateb yn gywir?


a) 43 b) 75 c) 80 ch) 84 d) 86

6 Beth yw'r nifer lleiaf o sgwariau <u>ychwanegol</u> sydd angen eu tywyllu fel bod gan y sgwâr hwn gymesuredd cylchdro trefn 4?



a) 3 b) 5 c) 7 ch) 9 d) mwy na 9

7 Faint yw hyd AB?





a) 3cm b) 5cm c) 6cm ch) 8cm d) 9cm

8 Mae ffatri yn cynhyrchu 275 tegan mewn diwrnod, ac yn gweithio saith diwrnod yr wythnos. Tua faint o deganau y mae'r ffatri yn eu cynhyrchu mewn tri mis?

a) 250 b) 2500 c) 25 000 ch) 250 000 d) 2 500 000

9 Mae sgwariau o faint 2cm yn cael eu torri oddi ar bedair cornel darn sgwâr o gerdyn, fel hyn:



Arwynebedd y cerdyn sydd ar ôl yw 48cm$^2$. Caiff y cerdyn hwn ei blygu ar hyd y llinellau toredig i wneud bocs agored. Faint yw cyfaint y bocs agored hwn mewn cm$^3$?

a) 16 b) 32 c) 48 ch) 64 d) 80

10 Mae Aled a Huw yn cychwyn cerdded gyda'i gilydd, troed chwith yn gyntaf. Mae Aled yn dalach na Huw. Mae dau gam Aled yn cyfateb i dri cham Huw. Sawl cam y bydd Huw wedi ei gymryd cyn y bydd y ddau yn camu gyda'i gilydd eto, troed dde yn gyntaf?

a) 2 b) 3 c) 6 ch) 12 d) byth

11 Mae'r gemau Olympaidd yn cael eu cynnal yn Llundain eleni am y tro cyntaf ers 1948. Mae'r gemau'n cael eu cynnal bob 4 mlynedd. Cynhaliwyd y gemau modern cyntaf yn 1896. Ni chynhaliwyd gemau yn 1916, 1940 na 1944 – cyfnodau'r Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd.

Faint o gemau Olympaidd sydd wedi cael eu cynnal, heb gynnwys gemau eleni?


a) 25 b) 26 c) 27 ch) 28 d) 29


*Ysgol*: ........................................................................ *Dosbarth*: ................................


*Enw*: ........................................................................................................................

**ADRAN B**





1 Mae gan Fiona 27 o giwbiau bach. Mae'n bosibl gosod y ciwbiau hyn ar grid 3×3 i greu solidau gwahanol.














Mae Fiona eisiau gosod y ciwbiau ar y grid 3×3 i wneud **ciwbiau** neu **giwboidau** gwahanol. Nid yw Fiona am roi mwy na **5** ciwb ar ben ei gilydd ar unrhyw un o'r 9 gwagle. Dangoswch isod ba giwbiau neu giwboidau sy'n bosibl. Rhaid i **gyfaint** pob un o'ch solidau fod yn wahanol.





Cyfaint: .................... Cyfaint: .................... Cyfaint: .................... Cyfaint: ....................





Cyfaint: .................... Cyfaint: .................... Cyfaint: .................... Cyfaint: ....................

Cyfaint: .................... Cyfaint: .................... Cyfaint: .................... Cyfaint: ....................

Cyfaint: .................... Cyfaint: .................... Cyfaint: .................... Cyfaint: ....................

Cyfaint: .................... Cyfaint: .................... Cyfaint: .................... Cyfaint: ....................

2 Mae pob rhes a phob colofn yn y sgwâr Sudoku hwn yn cynnwys y rhifau 1, 2, 3 a 4. Felly hefyd y pedwar bocs 2×2.

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | | | |
| | 2 | | |
| | | 3 | |
| | | | 4 |

Mewn sawl ffordd wahanol y medrwch chi lenwi’r sgwâr? Arbrofwch yma:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | | | |
| | 2 | | |
| | | 3 | |
| | | | 4 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | | | |
| | 2 | | |
| | | 3 | |
| | | | 4 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | | | |
| | 2 | | |
| | | 3 | |
| | | | 4 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | | | |
| | 2 | | |
| | | 3 | |
| | | | 4 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | | | |
| | 2 | | |
| | | 3 | |
| | | | 4 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | | | |
| | 2 | | |
| | | 3 | |
| | | | 4 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | | | |
| | 2 | | |
| | | 3 | |
| | | | 4 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | | | |
| | 2 | | |
| | | 3 | |
| | | | 4 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | | | |
| | 2 | | |
| | | 3 | |
| | | | 4 |

Y nifer o atebion **gwahanol** sy’n bosibl yw __________